



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Llun, 23 Medi 2019 am 10.00 am ym Ystafell Bwyllgor 1, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Hopkins Y Cyngorydd S. Rees-Owen
Y Cyngorydd R Yeo Y Cyngorydd E Griffiths

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms C Miles, Cyfreithiwr Gofal Plant
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Mr A Cope, Swyddog Datblygu - Gwasanaethau Maethu Rhanbarthol

13 Croeso ac Ymddiheuriadau

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu Aelod newydd, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol E. Griffiths i'w chyfarfod cyntaf o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Rosser a J. James, a Tros Gynnal Plant Cymru.

14 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins fuddiant personol yn Eitem 4 - y Gwasanaeth Maethu Rhanbarthol. "Rwy'n Rhiant Maeth i Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr".

15 Cofnodion

PENDERFYNODD yr Aelodau Gadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 16 Gorffennaf 2019 yn rhai cywir.

16 Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru

Fel y nodwyd yng Nghofnod Rhif 13, nid oedd cynrychiolydd o Tros Gynnal Plant (TGP Cymru) yn bresennol yn y cyfarfod i ddarparu cyflwyniadau i'r Aelodau.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad ger eu bron ac roedden nhw'n fodlon ar y cynnydd cadarnhaol a nodwyd. Canmolodd un Aelod ffigurau cyflawniad y gwasanaeth a nodwyd mewn perthynas â'r Cynnig Gweithredol ac yn Seiliedig ar Faterion, gan nodi pwysigrwydd cysylltu o fewn 48 awr ac ymgysylltu wyneb yn wyneb o fewn 5 diwrnod gwaith.

Yn dilyn ymholiad, ceisiodd y Rheolwr Cwynion egluro i'r Aelodau beth yw'r gwahaniaeth rhwng atgyfeiriadau Cynnig Gweithredol ac atgyfeiriadau yn Seiliedig ar Faterion. Cafodd yr aelodau wybod ei bod yn ofyniad statudol i bob person ifanc yn y gwasanaeth dderbyn cynnig gweithredol, sef sgwrs gydag Eiriolwr am y gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Os yw'r person ifanc yn ceisio eiriolaeth bellach yn dilyn y sgwrs, mae'r atgyfeiriad wedyn yn Seiliedig ar Faterion.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cyfraniadau, gan bwysleisio pa mor bwysig yw hi fod Tros Gynnal Plant Cymru yn dod i gyfarfod nesaf y Bwrdd Rhianta Corfforaethol.

17 Y Gwasanaeth Maethu Rhanbarthol

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd y Swyddog Datblygu Gwasanaethau Maethu Rhanbarthol wybodaeth i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am recriwtio a chadw rhieni maeth a'r newidiadau i'r ddarpariaeth mewn perthynas â recriwtio rhieni maeth.

Yn dilyn gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol mewn perthynas â'r heriau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol, roedd yr Aelodau'n falch o glywed am y prosiect 'Drws Ffrynt Rhanbarthol' ar y cyd, a gafodd ei lansio ym mis Ebrill 2019, rhwng Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

Roedd cyfle i'r Aelodau weld sut mae'r wefan faethu ranbarthol newydd yn gweithio, ac roedden nhw'n falch o ychwanegu pwynt cyswllt modern ar gyfer unigolion sy'n dymuno holi am wasanaethau maethu yn y ddau Awdurdod Lleol. Yn ogystal â hynny, roedd hi'n braf clywed am linell ffôn recriwtio bwrpasol, a gaiff ei rhedeg gan ganolfan gofal i gwsmeriaid RhCT, sy'n cynnig nifer o bwyntiau cyswllt i ddarpar ymgeiswyr.

Yna, rhoddodd y swyddog wybodaeth i'r Bwrdd a gasglwyd o adroddiad cyflawniad Chwarter 1, a oedd yn amlinellu cynnydd cadarnhaol o'i gymharu â'r data a gynhyrchwyd yn y flwyddyn flaenorol. Nodwyd bod 35 o ymholiadau wedi'u nodi yn Chwarter 1, a oedd yn llai na'r ffigur yr adroddwyd arno yn ystod y flwyddyn flaenorol oherwydd gwaith recriwtio a marchnata.

Amlinellodd y swyddog dair neges allweddol y gwasanaeth, a gaiff eu hyrwyddo gan y cynnydd mewn gweithgarwch taledig ar gyfryngau cymdeithasol, achlysuron maethu a gwaith cynhyrchu cynnwys, h.y. fideos a straeon:

- Argaeledd lleoliadau, sy'n fwy addas i chi;
- Cysylltiadau â Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn/Carfan o amgylch y Plentyn; a
- Nid-er-elw

Gorffennodd y swyddog ei gyflwyniad trwy amlinellu'r camau nesaf ar gyfer y

gwasanaeth a dywedodd fod cynnig craidd i rieni maeth yr Awdurdod Lleol wrthi'n cael ei ddatblygu ac y byddai'n cynnwys:

- Hyrwyddo buddion maethu i'r awdurdod lleol; a
- Datblygu CBS RhCT yn sefydliad maethu-gyfeillgar.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad cadarnhaol a llawn gwybodaeth am wasanaeth proffesiynol ac ymatebol.

Roedd yr aelodau'n arbennig o falch o glywed am y gwelliannau sylweddol a welwyd mewn perthynas ag amseroedd ymateb o'r ymholiad cychwynol i alwadau recriwtio dilynol ac ymweliadau cychwynol.

Gan gyfeirio at erthygl diweddar, holodd un Aelod a yw nifer y rhieni maeth sy'n LGBTQ yn cael eu cofnodi gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Dywedodd y swyddog fod y gwasanaeth yn cadw cofnod o'r holl rieni maeth, ond dydyn nhw ddim wedi'u his-gategoreiddio ar hyn o bryd. Cafodd yr aelodau eu sicrhau na fyddai unrhyw faes marchnata ar gyfer y gwasanaeth yn gwahaniaethu yn erbyn rhyw, rhywedd na ffydd ac y byddai pob ymgyrch, wrth gwrs, yn agored i'r gymuned gyfan.

Gwnaeth un Aelod sylw am bwysigrwydd y cyswllt cryf rhwng y rhiant maeth a Gweithiwr Cymdeithasol yr unigolyn ifanc, ac awgrymodd y dylid darparu rhif ffôn symudol y Gweithiwr Cymdeithasol i'r rhiant maeth ar gyfer argyfyngau yn ystod oriau gwaith, yn enwedig wrth hyrwyddo gweithio hyblyg, lle mae'n bosibl na fydd y Gweithiwr Cymdeithasol wrth ei ddesg yn y swyddfa.

Cafodd yr Aelodau drafodaeth ynglŷn â'r ffordd y caiff digwyddiadau arwyddocaol i'r person ifanc eu cofnodi o ddydd i ddydd. Rhaid i rieni maeth gyflwyno'r rhain yn rhan o'u dyletswydd. Cytunodd yr aelodau y byddai moderneiddio'r gwasanaeth er mwyn caniatáu i rieni maeth gyflwyno hwn yn electronig o fudd mawr. Nododd Rheolwr y Gwasanaeth Maethu fod dewisiadau cyfathrebu'r gwahanol rieni maeth yn amrywio, a bod angen diweddarau'r broses yma.

PENDERFYNODD yr Aelodau gydnabod yr adroddiad.

18 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

19 Gwasanaethau Cymdeithasol – Cwynion a Chanmoliaethau Chwarterol

Rhoddodd y Rheolwr Cwynion, Ymgysylltu a Gwella Gwasanaeth grynodedd i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cwynion a ddaeth i law, natur y cwynion, ac unrhyw wersi a ddysgwyd, yn ogystal â manylu ar ymholiadau gan Gynghorwyr, Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol a nifer y cwynion a ddaeth i law.

Yn ystod y drafodaeth, dywedodd y Rheolwr Cwynion fod newidiadau ar y gweill yn swyddfa'r Ombwdsmon, a fyddai'n effeithio ar y data y manylir arno mewn adroddiadau i'r Bwrdd yn y dyfodol. Cafodd yr Aelodau wybod fod yr Ombwdsmon wrthi'n creu Awdurdod Safonau Cwynion, y mae disgwyl iddo gael ei roi ar waith yn ystod yr hydref, a hynny ar gyfer pob agwedd ar yr Awdurdod Lleol, nid Gwasanaethau Plant yn unig. O ganlyniad i'r newid, byddai adroddiadau yn y dyfodol yn tynnu sylw at gynnydd mewn cwynion sydd ar Gam 2.

Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gydnabod y diweddariad.

20 Adroddiadau Rheoliad 73

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 73 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynoded o ganlyniadau'r arolygiad a manteisiodd ar y cyfle i wahodd y Bwrdd i'r Bore Coffi Tŷ Agored yn Narpariaeth Breswyl Tymor Byr/Cartref Carn Inqli newydd yn Abernant ddydd Iau 10 Hydref 2019.

PENDERFYNWYD cydnabod cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am

**Y Cyngorydd C Leyshon
Cadeirydd.**